Cofnodion y Fforwm Tenantiaid a Phreswylwyr a gynhaliwyd yn Tŷ Canol, Y Drenewydd 5 Awst 2011

Yn bresennol:

Tenant Aelodau

Bryan Owen (Cadeirydd)
Christine Field
Brian Christopher (Aelod o'r Bwrdd)
Brian Spencer
Jean Christopher
Ann Burton
Heather Jones
Sarah Bryan
Mike Williams

Staff ac Aelodau o'r Bwrdd

Shane Perkins (Prif Weithredydd)
Aidan Ackerman (Cyfarwyddydd Gwasanaethau Gweithredol)
David Churm (Rheolydd Tai)
Robert Dearden (Rheolydd Asedau)
Joanne Corfield
Huw Cooke (Garddwr)
Jane Jones (Rheolydd Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chefnogaeth)
Hannah Jones (Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid)
David Evans (Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd Rheoli)
Jim Lloyd (Aelod o'r Bwrdd)

Ymddiheuriadau

Mary Vaughan – sy'n symud tŷ ac na fydd yn mynychu cyfarfodydd o'r herwydd. Dymunai ddweud ffarwel a dymuno'n dda i bawb oedd yn bresennol.
Debbie Crewe
Kim Woodbine
Phil Taylor
Ollie Davies
Mr a Mrs Baker

1. Materion Tenantiaid

Cynhaliodd y tenantiaid drafodaeth cyn dechrau'r cyfarfod. Cafwyd y nodiadau dilynol o'r drafodaeth honno gan Bryan Owen, y Cadeirydd.

Trafododd tenantiaid gyfriflennu Taliadau Gwasanaeth, dim ond i ganfod mai dim ond 2 o aelodau TaRF sydd wedi eu derbyn hyd yma ac nad yw 8 wedi'u derbyn eto. Roedd aelodau'n teimlo'n ddigalon iawn na dderbyniwyd unrhyw gyfathrebiad gan

Tai Canolbarth Cymru i ddweud pam y bu'r oedi. Penderfynodd aelodau godi'r mater hwn gyda'r Prif Swyddog Gweithredol i ofyn iddo beth oedd y broblem a pham na dderbyniwyd gwybodaeth am daliadau gwasanaeth o ddiwedd Chwefror. Codwyd hyn gydag ef yn nes ymlaen yn y cyfarfod. Dywedodd un aelod iddo siarad 3 gwaith am ei daliadau gwasanaeth, ac mae'n dal i fod yn anghywir.
Dywedodd y cadeirydd ar 14 Mehefin wrth y dderbynfa fod ei daliadau gwasanaeth yn anghywir ac roedd yn dal i ddisgwyl ymateb gan Tai Canolbarth Cymru i drafod hynny.

Roedd un aelod wedi cwyno beth amser yn ôl i Tai Canolbarth Cymru drwy'r dderbynfa ac mae'n dal i aros i rywun o'r Gymdeithas gysylltu â hi am y broblem. Dywedwyd wrthi, os nad yw'n cael ymateb i'w galwad, y dylai ddweud hynny wrth y Prif Swyddog Gweithredol. Cytunodd aelodau TaRF i wneud hyn.
Dyna le bu aelodau TARF yn ymgyrchu ers cryn amser, y dylai pob galwad ffôn a neges e-bost a dderbynnir i gael eu logio'n awtomatig gyda chyfeirnod a dyddiad a bod gweithredu ar y galwadau lle bo angen. Byddai'n rhwydd edrych pam na fu ateb os oes cyfeirnod a dyddiad.

2. Croeso a Chyflwyniad
Croesawodd y Cadeirydd ei hunan a gofynnodd i bawb o amgylch y bwrdd i wneud yr un fath.

3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 3 Mehefin 2011
Cadarnhawyd y cofnodion.

4. Materion yn Codi

Aethpwyd drwy'r rhestr dreigl o faterion yn codi o gyfarfodydd blaenorol, a rhoddwyd y diweddariadau dilynol.

Esboniodd Hannah y dywedwyd wrthi na fu'n arddangos y ddalen materion yn codi yn y ffordd gywir. Dylai'r ddalen gynnwys ateb i'r mater yn codi yn ogystal â'r mater ei hunan. Bydd yn gwneud hyn yn y dyfodol a bydd yn newid y ddalen bresennol i adlewyrchu hyn.

Gweithgor ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol - Esboniodd Jane y bu camddealltwriaeth ar hyn. Ni fu mewn gwirionedd erioed weithgor ar ymddygiad gwrthgymdeithasol. Trefnwyd cyfarfod rhwng staff a dau denant i adolygu gweithdrefnau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn anffodus roedd y ddau denant wedi methu bod yn bresennol a golygai hyn i'r cyfarfod fynd ymlaen heb denantiaid yn bresennol. Sylweddolodd yr aelodau o'r staff oedd yn bresennol nad oedd hyn yn sefylfa ddelfrydol.
Soniodd Heather iddi gyflwyno ei henw i fynychu cyfarfod ond esboniodd Jane na chynhaliwyd mwy o gyfarfodydd.
Gofynnodd Heather i Aidan os byddai mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn cyfarfodydd ar ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dywedodd Aidan fod cynlluniau i gynnal adolygiad o'r polisïau a gweithdrefnau ymddygiad gwrthgymdeithasol a adolygwyd. Mae Ann a Heather wedi gwirfoddoli i gymryd rhan yn yr adolygiadau hynny.

Gofynnodd Ann (yn dilyn cyfarfod TaRF ym mis Ebrill) os oedd y Gymdeithas yn hysbysu'r cydlynydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Llandrindod am bob achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Esboniodd Aidan, ar ôl eglurhad pellach gan yr heddlu nad oedd adroddiad yn cael ei wneud ar y cyfan, gan mai dim ond am achosion o lefel neilltuol o ymddygiad gwrthgymdeithasol y dymunent gael eu hysbysu.

Gweithgor Apwyntiadau - Cafodd tenantiaid a staff gyfarfod llwyddiannus ar ddatblygu system apwyntiadau atgyweiriadau. Esboniodd Aidan mai'r prif bwynt i ddod o'r cyfarfod oedd bod angen dod i gysylltiad agosach â chontractwyr a thenantiaid o'r dechrau cyntaf. Mae wedi siarad gyda'r adran technoleg gwybodaeth am sut y gellir cyflawni hyn a chytunodd tenantiaid y dylai ddod yn ôl gyda ffigurau a chostau i symud ymlaen gyda'r syniad.
Gofynnodd Ann beth oedd o'i le gyda dim ond cael dalen waith yn dweud wrth gontractwyr am ffonio cyn iddynt gyrraedd. Dywedodd Heather fod y cyfan mewn gwirionedd am gyfathrebu a gofyn y cwestiynau cywir.
Cytunodd Aidan a dweud mai dyma'r rheswm pam fod angen i denantiaid fedru siarad gyda chontractwyr o'r dechrau i esbonio'r materion atgyweiriadau, yn hytrach na staff yn ei ysgrifennu i lawr a'i anfon atynt.

Hyfforddiant RNIB ar gyfer cynhyrchu cylchlythyr - Bu Hannah mewn cysylltiad gyda'r RNIB i weld pa becynnau hyfforddiant oedd ganddynt. Medrant gynnig hyfforddiant ar wneud cylchlythyrau yn fwy hylaw ar gyfer rhai â nam ar eu golwg ond roedd hyn ar gost eithaf mawr. Ni chredai fod aelodau TaRF angen hyfforddiant o'r fath ar hyn o bryd. Cytunodd aelodau. Fodd bynnag, gofynnodd Jean os medrem gynnig y cylchlythyr a chyhoeddiadau eraill mewn fformat gwahanol ar gyfer rhai â nam ar eu golwg, er enghraifft ar CD a chynigiodd lefaru ar unrhyw recordiad o'r cylchlythyr y medrem ei wneud.

Pecynnau croeso - Mae'r Gymdeithas yn awr yn rhoi pecyn croeso i bob tenant. Mae'r pecyn yn dŷ cardfwrdd yn llawn cynnyrch glanhau, nwyddau ymolchi a the a choffi. Dangosodd Jane becyn croeso i'r aelodau.

Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth: Caiff yr hyfforddiant ei gynnal gan Tai Pawb a gwahoddir aelodau TaRF i ddod draw ynghyd â staff ac Aelodau o'r Bwrdd.

5. David Churm (Rheolydd Tai) -

a) Polisïau ar gadw anifeiliaid anwes
b) Baw cŵn
c) Diweddariad ar ymweliadau stad
ch) Llawlyfr tenantiaid

a) Y polisi swyddogol ar gyfer cadw anifeiliaid anwes y caniateir i bob aelwyd gadw 1 ci ac 1 gath, neu 2 gi, neu 2 gath .
Ond mae'n rhaid i bob aelwyd hefyd fod â gardd ac mae'n rhaid i'r tenant hefyd gael caniatâd **ysgrifenedig** y Gymdeithas.
Ar gyfer cartrefi gyda gerddi cymunol, dim ond os oes anifail anwes eisoes gan y tenant pan maent yn symud i mewn y rhoddir caniatâd ac na chaniateir unrhyw anifeiliaid anwes eraill ar ôl i'r anifail anwes hwnnw farw.

Y brif broblem yw nad yw tenantiaid yn cael caniatâd ysgrifenedig yn gyntaf gan Tai Canolbarth Cymru i gadw anifeiliaid anwes.
Cododd Jim y pwynt fod hyn yn anodd iawn ei weithredu gan ei fod yn anodd ei olrhain.

b) Os yw cŵn yn baeddu a'r perchnogion ddim yn ei lanhau, yna mae hyn yn drosedd. Mae hefyd yn cyfrif fel niwsans ac annifyrrwch dan delerau'r cytundeb tenantiaeth.
Holodd Jean a Brian S pam na wnaed unrhyw beth yn eu gardd gymunol am y broblem baw cŵn yno. A anfonwyd llythyr rhybudd? Dywedodd David Churm y byddai'n gweithredu ar hyn a chynghorodd hwy hefyd i gysylltu gyda'r warden cŵn.

Atgoffodd Hannah aelodau nad diben y cyfarfod oedd codi materion unigol ond i gynrychioli'r grŵp tenantiaid yn ei gyfanrwydd. Dywedodd Jean mai'r rheswm pam y soniodd am ei phroblem oedd ei bod wedi ceisio llwybrau eraill ond na wnaethpwyd dim, felly teimlai mai'r unig ffordd oedd iddi gael rhywun i wrando arni yn y cyfarfod.

Dywedodd Aidan mai diben y cyfarfodydd oedd rhoi cyfarwyddyd ar bolisi a lle nad yw'r Gymdeithas yn cyflawni ar y polisi hwnnw, er mwyn i denantiaid ddod â'u safbwynt a'u profiad personol. Holodd David os oedd Jean wedi llenwi ffurflen gwynion a chanmoliaeth gan fod pob adborth i staff yn awr yn cael ei gofnodi ar ein system gyfrifiadurol a'n system rheoli cyswllt.

Gofynnodd y Cadeirydd am anfon e-bost i Jean i ddweud fod ei phroblem yn cael ei thrafod.

Esboniodd Aidan hefyd fod yr archwilwyr allanol yn gwirio fod y Gymdeithas yn gwneud popeth y mae'n dweud y bydd yn ei wneud.

c) Esboniodd David fod y 3 cydlynydd tai wedi cynnal rhaglen o ymweliadau stad yn rhan gyntaf y flwyddyn. Roedd gan 2 ohonynt raglen o ymweliadau stad a'r trydydd yn anfon llythyrau at y stadau yn union cyn mynychu.

Roeddent yn amrywio o ran llwyddiant. Bu'r ymweliadau stad yn ardal y Drenewydd yn eithaf llwyddiannus ond roedd ardal Gogledd Powys/Y Trallwgn ac ardal De Powys/Ceredigion yn anwadal.

Mis cyntaf yr ymweliadau oedd yr un mwyaf llwyddiannus ym mhob ardal ac awgrymodd David efallai bod hyn yn dangos bod gormod o ymweliadau'n cael eu cynnal. Gofynnodd i denantiaid pa mor aml y credent y dylid cynnal ymweliadau stad.

Credai aelodau TaRF fod y teithiau stad yn gynharach yn y flwyddyn yn rhy agos at ei gilydd.

Credai Christine fod yr ymweliadau yn dda, yn arbennig os oedd gan rywun gŵyn, ac awgrymodd raglen o ymweliadau 4 gwaith y flwyddyn.
Roedd consensws cyffredinol y dylai'r ymweliadau ddigwydd 3 i 4 gwaith y flwyddyn a soniodd Sarah y byddai'n ddelfrydol caniatau am newidiadau tymhorol yn y materion a godwyd.

Cytunodd David fod angen i hyn ddigwydd o leiaf ddwywaith y flwyddyn er mwyn ei gwneud yn bosibl cynnal archwiliadau stad.

ch) Yng nghyfarfod TaRF ym mis Ebrill, roedd David wedi gofyn i denantiaid am eu barn ar y llawlyfr cyfredol i denantiaid gan ei bod yn amser ei ailwampio. Roedd aelodau'r Fforwm wedi penderfynu yr hoffent weld fersiwn rhwymydd cylch yn hytrach na fersiwn wedi'i bwytho.

Esboniodd David y byddai'r gost am 1500 o'r fersiwn wedi'i bwytho yn £3500 ond y byddai'r swm cyfatebol ar gopïau mewn rhwymydd cylch yn £11500. Roedd hefyd opsiwn pris canolig. Cafwyd y dyfynbrisiau gan yr un cwmni ac felly gofynnodd tenantiaid am gasglu mwy o ddyfynbrisiau cyn y gwneir penderfyniad.

6. Robert Dearden (Rheolydd Asedau), Jo Corfield (Cydlynydd Gwasanaethau) a Huw Cooke (Garddwr) - **Safonau Gwasanaeth Garddio**

Esboniodd Robert yr hyn a wnaiff y Gymdeithas o ran garddio -

- Torri glaswellt a mynd ag ef ymaith
- Torri perthi ddwywaith y flwyddyn
- Casglu sbwriel
- Chwistrellu meysydd parcio unwaith neu ddwy'r flwyddyn i ladd chwyn
- Gwiriadau ROSPA
- Palu borderi
- Cadw llwybrau ac ardaloedd sychu'n glir

Yna cyflwynodd Jo a Huw. Mae rôl Jo yn cynnwys cadw golwg ar wasanaethu nwy, monitro costau contractwr ac yn awr wasanaethau garddio. Huw yw garddwr y Gymdeithas.
Diolchodd Ann i Huw a dweud fod Jo hefyd wedi gwneud gwaith da iawn gyda'r torwyr gwair yn Pine Court.

Gofynnodd y Cadeirydd pwy oedd y contractwyr garddio newydd.
Esboniodd Jo fod Alan Jones yn awr yn gweithredu yn ardal Trefyclo a Llanandras a Kevin Jones yng ngweddill yr ardaloedd.
Mae Jo yn monitro gwaith y contractwyr i wneud yn sicr eu bod yn perfformio'r dyletswyddau gofynnol.

Mae Jo a Huw hefyd yn ymweld â stadau lle cafwyd ymholiadau am arddio. Maent yn esbonio y gall y Gymdeithas wneud mwy na'r swm gofynnol o arddio ar stadau ond y byddai hynny'n cynyddu'r tâl gwasanaeth ar gyfer y stad honno. Fel canlyniad mae mwy o arddio'n cael ei wneud ym Modlondeb a Bro Dulas. Mae preswylwyr Bro Dulas hefyd yn torri'r gwair eu hunain dan oruchwyliaeth Huw ac maent hefyd wedi symud perth.

Esboniodd Jo mai'r cynllun yw ymweld ag unrhyw safle lle hoffai preswylwyr wneud newidiadau neu waith ychwanegol. Yr unig broblem am hyn yw os yw preswylwyr yn gofyn am arddio sydd â llawer o waith cynnal e.e. gwelyau blodau ac yna bod y tenantiaid hynny'n symud ac yn methu ei gynnal eu hunain.

Gofynnodd Jane os oedd cyfle ar gyfer gwaith gwneud iawn gan droseddwyr ifanc mewn garddio. Dywedodd Jo eu bod yn edrych ar hyn.

Gofynnodd Jim i Huw beth oedd ei farn am y llwyth gwaith. Holodd y Cadeirydd os oedd unrhyw gynlluniau i gael prentis i Huw. Er bod Huw yn brysurach dros fisoedd yr haf nag yn ystod y gaeaf, nid yw'n teimlo fod angen prentis ond gall pethau newid yn y dyfodol wrth i bethau ddatblygu.

Dywedodd hefyd y dylai tenantiaid ddod i'w weld ar y safle gydag unrhyw broblemau neu geisiadau gan ei fod yn arbed amser iddo yn y pen draw i ddatrys problemau pan fo ar y safle. Ychwanegodd Janet fod ganddynt ddalenni gwaith i'w llenwi bob tro y mae tenant yn siarad gyda Huw fel y caiff popeth ei gofnodi.

Soniodd Sarah na wyddai fod gwasanaeth i gael mwy o arddio. Mae Ann yn adnabod rhywun a arferai fod yn arddwyr yng nghastell Powys ac sydd hefyd wedi gwneud peth gwaith garddio yn Pine Court. Dywedodd Jo fod croeso i denantiaid ei ffonio ar unrhyw amser fel ei bod yn gwybod beth sy'n digwydd yng nghyswllt garddio.

7) Aidan Ackerman (Cyfarwyddydd Gwasanaethau Gweithredol) – Paneli PV

Bydd y Gymdeithas yn rhoi paneli PV ar doeau llawer o'i gartrefi. Byddai hyn yn golygu arbediad o £150 ar gyfer y bobl sydd â phaneli. Bydd y Gymdeithas yn hysbysu pobl sut i ddefnyddio eu trydan i wneud y math hwn o arbediad.

Bydd gan rhwng 30-50% o holl anheddau'r Gymdeithas y math cywir o doeau ar gyfer y paneli. Bydd yn dibynnu ar bethau fel pa gyfeiriad y maent yn wynebu. Bydd yn bennaf yn fater o lwc pa doeau yw'r rhai cywir.

Ar gyfer unrhyw un sy'n cael paneli PV, bydd angen gwneud gwelliant i'w tenantiaethau i ychwanegu cymal ychwanegol. Ond gall tenantiaid wrthod eu cael os nad ydynt yn dymuno cael paneli.

Bydd y gwaith gosod yn cael ei orffen erbyn Mawrth 2012.

Gofynnodd Jean pam y dylai tenantiaid fedru gwrthod gosod y paneli ar eu toeau. Esboniodd Aidan fod materion cyfreithiol am hynny. Mae angen i'r Gymdeithas sicrhau y medrant gael mynediad i'r paneli PV i'w cynnal a chadw. Anfonir llythyrau yn y dyfodol agos i esbonio'r broses. Bydd hefyd beth gwybodaeth am y paneli yn y cylchlythyr nesaf.

Gofynnodd y Cadeirydd pa mor hir y byddai'n ei gymryd i osod paneli ar gartref rhywun. Dywedodd Aidan ei fod yn cymryd tua diwrnod.

Dymunai Ann wybod beth oedd y sefyllfa yng nghyswllt fflatiau. Lle mai dim ond un to sydd ar gyfer nifer o gartrefi, a fyddai'r fflatiau islaw'n dal i fanteisio o'r arbediad trydan. Roedd Aidan yn obeithiol am hyn.

Holodd Ann hefyd am raglen Safon Ansawdd Tai Cymru ac os byddai'r holl gawodydd yn cael eu gosod erbyn 2012. Dywedodd Robert fod yr holl gyllideb cynnal

a chadw cynlluniedig ar gyfer eleni a'r flwyddyn nesaf yn cael ei wario ar osod cawodydd.

8) Shane Perkins (Prif Weithredydd) – Polisi Dyraniadau.

Yn ôl ar ddechrau'r flwyddyn, roedd y Gymdeithas wedi meddwl sut i ddyrannu ei chartrefi ac wedi llunio polisi newydd ar ddyraniadau.

Byddai'n rhoi blaenoriaeth i rai mewn angen ac yna yn hytrach na dyrannu cartrefi ar system pwyntiau, byddai'n dyrannu i'r bobl hynny sy'n lleol, mewn cyflogaeth yn yr ardal neu'n gwirfoddoli yn yr ardal.

Fel cefndir i'r papur ar ddyraniadau a gyhoeddodd y Gymdeithas, bu'r Llywodraeth yn siarad am 'Y Gymdeithas Fawr' a phobl leol yn helpu ei gilydd. Bu cymdeithasau tai eraill hefyd yn gwneud pethau tebyg gyda'r ffordd y maent yn dyrannu anheddau, er enghraifft Cyngor Dinas Manceinion.

Esboniodd Shane fod y Gymdeithas wedi derbyn 68 ymateb i'r papur ymgynghori ar ddyraniadau. Roedd 15 ohonynt gan ymgeiswyr a 6 gan denantiaid. Roedd 63% o'r ymatebion yn cefnogi'r syniad ond roedd y prif faes o bryder yn ymwneud â diffiniadau. Roedd pobl eisiau eglurhad ar beth oedd gwir ystyr "lleol", "cyflogedig" a "gwirfoddolydd". Bydd angen i'r Gymdeithas fireinio'r diffiniadau hyn. Efallai y medrir defnyddio a106 fel diffiniad ar gyfer "lleol" er enghraifft. Maes arall o gonsyrn oedd y byddai'n rhaid i'r Gymdeithas fod yn ofalus i beidio gwahaniaethu yn erbyn pobl.

Y camau nesaf fydd sefydlu grŵp adolygu. Hoffai Shane weld tenant ac ymgeisydd ar y grŵp adolygu. Bydd angen i'r Gymdeithas sefydlu diffiniadau clir: bydd angen cadw golwg ar gydraddoldeb er mwyn sicrhau na wahaniaethir yn erbyn achosion difrifol.

Mae Shane yn gobeithio y medrai'r polisi newydd arwain at fanteision eraill megis hyrwyddo cyflogaeth a gwirfoddoli yn yr ardal. Gall hefyd arwain at i'r Gymdeithas sefydlu ei grwpiau gwirfoddoli ei hun.

9) Hannah Jones (Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid) – Cyllideb Cyfranogiad Tenantiaid a diweddariad

- Cylchredodd Hannah gyllideb gyfredol ar Gyfranogiad Tenantiaid i bawb.
- Roedd hefyd wahoddiad gan TPAS Cymru i denantiaid fynychu eu cynhadledd flynyddol a gynhelir ar 17-18 Tachwedd eleni yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod. Gofynnodd Hannah i aelodau adael iddi wybod os hoffent fynd i'r gynhadledd.
- Cyflwynodd Hannah hefyd syniad newydd am gynllun awgrymiadau tenantiaid. Mae'r Gymdeithas hefyd yn cynnal cynllun awgrymiadau staff lle rhoddir £50 os yw staff yn awgrymu cynllun a gaiff ei weithredu. Hoffai Hannah weld cynllun tebyg ar gyfer tenantiaid. Enghraifft o awgrym gan staff yw'r dyfarniad cymydog da a gynhwyswyd yn y cylchlythyr diweddaraf. Un syniad a gafwyd gan y Cadeirydd oedd postio, lle daeth dau lythyr drwy'r post o wahanol adrannau ar yr un diwrnod, y ddau gyda stampiau dosbarth cyntaf. Dywedwyd ei fod yn anodd monitro hyn.

- Roedd Ernie Capener o'r Tîm Rheoli Asedau eisiau hysbysu tenantiaid fod staff wedi sefydlu Tîm Gostwng Carbon sy'n edrych ar faterion amgylcheddol megis tlodi tanwydd sy'n effeithio ar denantiaid a gwaith y Gymdeithas. Hoffai ei dîm roi cyflwyniad i TaRF yn y dyfodol agos a hoffai hefyd gael tenant yn gynrychiolydd ar y tîm.
- Dymunai Maureen Woosnam o'r Gymdeithas i Hannah hysbysu TaRF y bydd yn y dyfodol agos yn gofyn i'w tenantiaid beth yw eu blaenoriaethau lleol. Bydd yn debyg i'r gêm "Stryd Gwario" sydd ar wefan y Gymdeithas. Y bwriad yw i Mo a Hannah fynd allan i'r gymuned a gofyn i denantiaid beth yw eu blaenoriaethau a beth ddylai blaenoriaethau'r Gymdeithas fod.

10) Unrhyw Fater Arall

- Dymunai David Evans longyfarch Sue Willis ac Olivia Davies ar eu maniffestos ar gyfer yr etholiadau Tenant Aelodau Bwrdd. Dywedodd fod y ddwy ymgeisydd yn rhagorol ac o'r herwydd cafwyd y nifer uchaf eto o bleidleisiau mewn etholiad. Ychwanegodd Shane ei longyfarchiadau i Olivia Davies, yr ymgeisydd llwyddiannus.

- Roedd Shane ac Aidan wedi siarad gyda'r adran cyllid amser cinio am y mater tâl gwasanaeth a godwyd yn gynharach yn y cyfarfod. Roedd rhai cyfriflenni tâl gwasanaeth wedi mynd allan. Sylweddolodd yr adran cyllid fod problem felly nid oeddent wedi anfon mwy. Ymddiheurodd Shane a chydnabu bod y sefyllfa yn annerbyniol ac y byddai'n cael ei hunioni cyn gynted ag sydd modd.

- Cynhaliwyd trafodaeth gyffredinol am sut i godi proffil TaRF ymysg tenantiaid eraill. Credai Jean y byddai'n syniad da cynnwys rhywbeth ar TaRF yn y cylchlythyr eto. Posibilrwydd arall oedd rhoi'r cofnodion diweddaraf yn y pecyn gohebiaeth nesaf. Awgrymodd Ann baratoi dalen ffeithiau o'r hyn a gyflawnodd TaRF fel grŵp. Cytunodd Hannah fod hyn yn syniad da a byddai'n paratoi un.

- Holodd Jean os oedd unrhyw ffordd y gallai Gymdeithas roi gwybodaeth i denantiaid am gyd-gyfnewid. Soniodd Sarah fod tudalen Facebook dan y teitl "Housing Exchange" lle medrai gael yr wybodaeth yma. Tybiai Shane os dylai'r Gymdeithas wneud rhywbeth tebyg ar ei dudalen Facebook ei hun a gofynnodd i Jane a Hannah ystyried y mater gyda chefnogaeth Technoleg Gwybodaeth.

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.

Cynhelir y dyddiad y cyfarfod nesaf ar 7 Hydref yn Nhŷ Canol, Y Drenewydd o 10.00am.